# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **18 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** |

**Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwysadwy a ddiwygir gan Reoliadau 2019.

- Cyfarwyddeb Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)
- Cyfarwyddeb 2009/147/EC ar gadwraeth adar gwyllt (y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt) (a elwir ar y cyd yn Gyfarwyddebau Natur)

Deddfwriaeth sylfaenol

- Rheoliadau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Is-ddeddfwriaeth

- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (Cymru a Lloegr)
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 (DU)

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r offeryn hwn yn parchu'r setliad datganoli presennol. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Chynefinoedd ac Adar Gwyllt Cymru.

Mewn perthynas â'r ardal forol alltraeth, fodd bynnag, a ddiffinnir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 fel parth Cymru, mae Gweinidogion Cymru'n meddu ar gymhwysedd gweithredol ar gyfer y maes hwn. Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer parth Cymru.

Caiff swyddogaethau deddfwriaethol eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliad newydd 84A i Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.

Nid yw'r trosglwyddiad hwn, fodd bynnag, yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, nac ar y swyddogaethau gweithredol a gaiff eu harfer gan Weinidogion Cymru o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.

**Diben y diwygiadau**
Mae Rheoliadau 2018 (gweithdrefn gadarnhaol) yn ei gwneud hi'n bosibl i barhau i weithredu camau gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau y darperir ar eu cyfer gan y Cyfarwyddebau Natur ar ôl y diwrnod ymadael. Nid oes unrhyw newid i bolisi. Mae'r newidiadau'n sicrhau bod Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 yn parhau i weithio ar ôl y diwrnod ymadael.

Mae'r Offerynnau Statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith y diwygiadau ar gael yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/3Mb6uXHL

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE.

Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hefyd wedi’i osod yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â’r diwygiadau i Rheoliadau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981